

ADRODDIAD RHAGLEN CLWSTWR

# *ADRODDIAD MONITRO AMRYWIAETH 1*

AMRYWIAETH O FEWN RHAGLEN CLWSTWR MEWN PERTHYNAS Â SECTORAU CREADIGOL CYMRU

Marlen Komorowski, Sally Griffith a Laolu Alatise
Gorffennaf 2021

clwstwr
Cardiff University Prifysgol Caerdydd
University of South Wales Prifysgol De Cymru
MetCaerdydd Cardiff Met
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Creative Clusters
Arts & Humanities Research Council
Industrial Strategy

## YNGLŶN Â'R ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen Clwstwr, prosiect pum mlynedd sydd â'r nod o roi arloesedd wrth wraidd y broses o gynhyrchu cyfryngau yn ne Cymru, gan symud sector sgrin llewyrchus Caerdydd o gryfder at arweinyddiaeth. Mae Clwstwr yn adeiladu ar lwyddiant de Cymru wrth wneud cynnwys creadigol trwy gefnogi ymchwil a datblygu wrth graidd cynhyrchu.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:


CLWSTWR

Neuadd y Ddinas
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3ND
Ffôn: 02922 511434
E-bost: clwstwrcreadigol@caerdydd.ac.uk
Twitter: @ClwstwrCreu
www.clwstwr.org.uk

## Cyflwyniad

MAE CLWSTWR WEDI YMRWYMO I GEFNOGI DATBLYGIAD SECTOR NEWYDDION A SGRIN CYNHWYSOL I GYMRU, UN SY'N ADLEWYRCHU EIN CYMUNEDAU AR AC ODDI AR Y SGRIN.

Nod Clwstwr yw rhoi arloesedd wrth graidd cynhyrchu cyfryngau yn ne Cymru ac rydym yn cydnabod bod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ganolbwynt amrywiol sy'n tyfu, gyda 6% o bobl BAME, 4.5% o bobl yn nodi eu bod yn anabl, ac 19% o bobl yn siaradwyr Cymraeg, ac mae'n ardal sy'n cynnwys saith o'r deg ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae amrywiaeth yn rhan annatod o ddatblygu syniadau gwirioneddol arloesol a thrawsnewidiol ac rydym yn gweithio i adeiladu diwylliant cynhwysol trwy alluogi mynediad teg i'n rhaglen, ar gyfer pobl o bob cefndir cymdeithasol a diwylliannol. Ar draws dwy flynedd gyntaf y rhaglen Clwstwr, mae ein carfannau wedi dod yn fwyfwy amrywiol ac rydym wedi ariannu nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar greu sector sgrin a/neu newyddion mwy cynhwysol. Rydym yn awyddus i ddatblygu ein gwaith yn y maes hwn, ac mae manylion pellach am ein gweithgarwch amrywiaeth a chynhwysiant i'w gweld ar ein gwefan.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar gyfansoddiad cyfranogwyr y rhaglen Clwstwr o ran rhai o'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae ein data wedi'i gyd-destunoli o fewn poblogaeth ehangach Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan ddefnyddio nifer o ffynonellau data sy'n bodoli eisoes fel Asesiad Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Creative Skillset o sector sgrin y DU. Rydym yn defnyddio ffigurau poblogaeth yn yr adroddiad hwn i ddeall pa mor gynrychioliadol ydym o'r diwydiannau creadigol a'n cymunedau. Fodd bynnag, nid ein unig nod yw hyn ac rydym yn ei ddefnyddio fel arwydd o'n heffaith yn unig. Rydym hefyd yn rhoi trosolwg byr o rywfaint o'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud i greu rhaglen fwy cynhwysol. Bydd ein gwaith dros fwy o amrywiaeth ar draws pob maes yn parhau ar draws oes Clwstwr.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n adrannau canlynol:

- Methodoleg
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth trawsrywiol
- Oedran
- Ethnigrwydd

- Cymraeg
- Anabledd
- Crefydd
- Heriau Clwstwr a'n hymyriadau
- Sylwadau i gloi

# Methodoleg

## Ffurflen monitro amrywiaeth Clwstwr

Mae ein harolwg monitro amrywiaeth yn ein helpu i benderfynu pa mor llwyddiannus y mae Clwstwr wedi ariannu ac ymgysylltu â phobl o wahanol gefndiroedd a chymunedau. Rydym yn defnyddio'r data rydym yn ei dderbyn i osod blaenoriaethau o ran y cymorth rydym yn ei gynnig i'r sector, yr arbenigeddau rydym yn gweithio gyda nhw, a'r ffordd rydym yn cyfathrebu am ein gwaith. Mae'r broses hon yn ein helpu i nodi a goresgyn rhwystrau posibl y gallai pobl eu profi wrth ymgysylltu â rhaglen ymchwil a datblygu fel Clwstwr.

Mae ffurflen monitro amrywiaeth Clwstwr yn defnyddio cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n golygu ein bod yn gallu meincnodi data yn erbyn y llywodraeth a sefydliadau eraill. Y naw nodwedd warchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw fel a ganlyn:

- oedran
- bod yn berson traws (y cyfeirir ato fel 'ailbennu rhywedd' yn y Ddeddf Cydraddoldeb)
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu ar gyfnod mamolaeth[1]
- anabledd[2]
- hil, gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, neu darddiad ethnig neu genedlaethol
- crefydd, cred neu ddiffyg crefydd/cred[i]
- rhyw (a ddefnyddir yn aml yn gyfnewidiol â 'rhywedd')

---

[1] Mae statws priodasol a phartneriaeth sifil, yn ogystal â statws beichiogrwydd a chyfnod mamolaeth, yn cael eu hystyried yn rhannol yn y cefndir economaidd-gymdeithasol a amlinellir isod.
[2] Rydym yn cydnabod y Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n nodi rhwystrau systemig sy'n rhwystro unigolion â namau mewn cymdeithas, yn hytrach na'r Model Meddygol o Anabledd, fel y cyfeirir ato yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

- cyfeiriadedd rhywiol

Yn ogystal â hyn, nod Clwstwr yw mynd y tu hwnt i ofynion cyfreithiol (wedi'i ysbrydoli gan ScreenSkills),[3] gan ystyried mesurau ychwanegol o gynhwysiant, gan gynnwys:

- cyfrifoldebau gofalu a rhieni a gofalwyr sy'n ailymuno â'r diwydiant
- statws cyflogaeth
- lleoliad daearyddol (gan gynnwys cynrychiolaeth cenhedloedd a rhanbarthau)
- cefndir economaidd-gymdeithasol

Bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu'n fanylach mewn adroddiadau dilynol. Yn seiliedig ar y nodweddion hyn, datblygodd Clwstwr broses monitro amrywiaeth i ddal cyfansoddiad a nodweddion gwarchodedig y rhai sy'n ymgysylltu â rhaglen Clwstwr. Cafodd y broses hon ei llywio gan enghreifftiau o arfer gorau o Creative Skillset,[4] y Gwasanaeth Sifil,[5] Llenyddiaeth Cymru, The Other Room Theatre a Frân Wen. Gallwch weld rhagolwg o'n ffurflen fonitro yma.

## Strategaeth casglu data

Lansiodd Clwstwr ein galwad gyntaf am arian ymchwil a datblygu yng nghanol 2019. Gan gydnabod yr angen i ddeall amrywiaeth ein carfan a ariennir, a'r awydd i ddeall yr effaith yr oeddem yn ei chael, lansiwyd ein ffurflen monitro amrywiaeth ym mis Ionawr 2020, a gasglodd ddata o'n galwad sbarduno gyntaf o fis Chwefror 2020 ymlaen.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud gwahaniaethu yn anghyfreithlon ar bob cam o gyflogaeth ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn strategaeth

[3] ScreenSkills, 'Monitoring diversity and inclusion', *ScreenSkills*, 2019, ar gael yn: https://www.screenskills.com/about-us/diversity-and-inclusivity/guide-to-diversity-and-inclusivity-monitoring/ [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].
[4] ScreenSkills, 'Monitoring diversity and inclusion', *ScreenSkills*, 2019, ar gael yn: https://www.screenskills.com/about-us/diversity-and-inclusivity/guide-to-diversity-and-inclusivity-monitoring/ [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].
[5] Swyddfa'r Cabinet, 'Socio-economic background (SEB)', *GOV.UK*, 2019, ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/socio-economic-background/socio-economic-background-seb [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021]

Clwstwr i fesur amrywiaeth a chynhwysiant ar hyd strwythur rhaglen gyfan ein prosesau ymchwil a datblygu.

Gofynnwn i'r cyfranogwyr rhaglen canlynol gwblhau'r arolwg:

- Arweinwyr ceisiadau cyllido Clwstwr (cais llawn a datganiad o ddiddordeb)
- Arweinwyr prosiect a ariennir gan Clwstwr
- Aelodau tîm prosiect a ariennir gan Clwstwr

Gweler Tabl 1 am drosolwg o'r cyfraddau ymateb:

| Galwad am arian Clwstwr | Grŵp arolygu | Cyfanswm yn y grŵp | Ymatebion a dderbyniwyd | Cyfradd ymateb |
|---|---|---|---|---|
| Galwad agored Mehefin 2019 | Arweinwyr cais | 114 | 4 | 3.5% |
| | Arweinwyr prosiect a ariennir | 24 | 2 | 8.3% |
| Galwad sbarduno Chwefror 2020 | Arweinwyr cais | 71 | 22 | 30.9% |
| | Arweinwyr prosiect a ariennir | 9 | 9 | 100% |
| Galwad agored Mehefin 2020 | Arweinwyr cais | 76 | 45 | 59.2% |
| | Arweinwyr prosiect a ariennir | 33 | 28 | 84.8% |
| Galwad sbarduno Chwefror 2021 | Arweinwyr cais | 35 | 35 | 100% |
| | Arweinwyr prosiect a ariennir | 8 | 8 | 100% |
| **Cyfanswm (hyd yn hyn)** | Arweinwyr cais | Amherthnasol** | 95 | Amherthnasol** |
| | Arweinwyr prosiect a ariennir | 67 | 46 | 68.6% |
| | Aelodau tîm prosiect a ariennir (yn seiliedig ar ffurflenni hawlio taliad, gan gynnwys arweinwyr) | 116 | 64 (gan gynnwys 18 aelod o'r tîm) | 55.2% |
| | Holl gyfranogwyr y rhaglen (arweinwyr cais, arweinwyr prosiect a ariennir ac aelodau tîm a ariennir) | Amherthnasol** | 113 | Amherthnasol** |

**Tabl 1: Cyfraddau ymateb a chyfanswm y boblogaeth fesul cam proses Clwstwr**

*roedd hyn cyn i ni ddechrau monitro amrywiaeth yn ein prosiectau.

**nodwch fod gorgyffwrdd oherwydd gallai unigolion fod wedi gwneud cais fwy nag unwaith, er enghraifft.

## Dadansoddi data: cyfyngiadau

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 fel sail ar gyfer casglu a dadansoddi data, sydd â'i gyfyngiadau. Yn gyntaf, trwy ganolbwyntio ar bob nodwedd warchodedig, nid yw ein data yn cynrychioli profiadau croestoriadol yn ddigonol. Mae hyn yn golygu nad yw'n ystyried sut y gall nodweddion gwarchodedig niferus ddylanwadu ar brofiad cyfranogwr gyda Clwstwr. Gobeithiwn fynd i'r afael â hyn yn fwy manwl yn ein hadroddiad nesaf.

Lle mae niferoedd bach, sy’n golygu y byddai modd adnabod ymatebwyr, rydym wedi cyflwyno'r data ar ffurf gyfanredol i amddiffyn preifatrwydd unigolion. Felly, mewn rhai adrannau fel 'Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsrywiol', bu'n rhaid i ni roi’r gorau i ymholiadau manylach er mwyn cyflawni ein dyletswyddau diogelu.

Rydym yn deall pwysigrwydd iaith ac yn awyddus i sicrhau bod ein cwestiynau, a'r ffordd yr ydym yn casglu gwybodaeth, yn briodol. Rydym yn gwella'r ffurflen monitro amrywiaeth yn barhaus fel ein bod yn unol â'r meddylfryd cyfredol ac fel y gallwn ddal yr holl nodweddion sy'n berthnasol i'n gwaith. *Ym mis Ebrill 2021, diweddarwyd y ffurflen i gynnwys categorïau eraill, gan gynnwys nodweddion economaidd-gymdeithasol ac iaith o amgylch y Model Cymdeithasol o Anabledd*. Yn ein hadroddiad nesaf, bydd y newidiadau hyn yn yr arolwg yn cael eu hadlewyrchu.

Yn ogystal â hyn, mae cyfraddau datgan ac ymateb uchel cyfranogwyr ein rhaglen yn sicrhau darlun dibynadwy o broffil rhaglen Clwstwr, ac yn rhoi gwell dealltwriaeth inni o sut y gall ein harferion effeithio ar wahanol grwpiau. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi cyrraedd ein nod ar gyfer cyfraddau ymateb ar bob lefel. Mae hyn yn cyflwyno lefel o ansicrwydd i'r cyfrifiadau yn yr adroddiad hwn. Y rheswm am y gyfradd ymateb isel ar gyfer galwad agored Mehefin 2019 yw nad oedd y ffurflen fonitro yn fyw ar adeg gwneud cais. Mae'n werth nodi hefyd bod *cyfranogwyr Clwstwr nad ydynt wedi datgan nodwedd warchodedig, trwy beidio ag ymateb neu drwy nodi y byddai'n well ganddynt 'beidio â dweud', wedi'u heithrio'n rhannol o'r cyfrifiadau.*

Er mwyn cynyddu cyfraddau ymateb y galwadau am gyllid blaenorol, byddwn yn *gwahodd cyfranogwyr y rhaglen nad ydynt wedi cwblhau'r ffurflen o'r blaen i lenwi'r arolwg ym mi 2021*. Gobeithiwn y bydd hyn yn cynyddu cyfraddau ymateb ac yn ein helpu i wneud ein data yn fwy cynrychioliadol yn y dyfodol.


Byddwn hefyd yn dechrau *casglu data gan dîm Clwstwr a rhanddeiliaid* er mwyn gallu defnyddio'r data ac adrodd arno yn y dyfodol. Trwy gael tîm cynrychioliadol, gall hyn hefyd adlewyrchu a chreu mwy o gynhwysiant yn rhaglen gyffredinol Clwstwr a'r sector cyfryngau ehangach.

Credwn fod cyhoeddi'r adroddiad hwn bellach yn rhoi man cychwyn da inni ac yn darparu tryloywder i'n gweithredoedd ar gyfer y dyfodol.

# Amrywiaeth yn rhaglen Clwstwr

## Rhywedd

Mae'r cydbwysedd cyffredinol rhwng y rhywiau yn rhaglen Clwstwr hyd yma yn weddol sefydlog, gyda **46.4% o ferched yn cymryd rhan**. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â data adroddiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r sector o fenywod sy'n cymryd rhan yn y diwydiant creadigol a gweithlu'r sector digidol yn y DU. Mae pobl sy'n anneuaidd yn ffurfio **llai nag 1% o'n cyfranogwyr**.





**Ffigur 1: Dosbarthiad rhywedd ar gyfer cyfranogwyr rhaglen Clwstwr (sylwer, mae hyn yn eithrio nodweddion anneuaidd oherwydd cynrychiolaeth isel o dan 1% yn y data).**

Canfu adroddiad yn 2020 gan Ganolfan Polisi a Thystiolaeth y Diwydiannau Creadigol (PEC) fod 37% o weithwyr yn y diwydiannau creadigol yn y DU yn fenywod, gyda 40% o ragenwau benywaidd yn cael eu defnyddio gan y cyfryngau mewn perthynas â'r diwydiannau creadigol.[6] O edrych yn agosach ar y sector y mae Clwstwr yn gweithredu ynddo (ymchwil a datblygu yn y sector sgrin a newyddion), mae'r gwahaniaeth mewn

[6] Rebecca Fulleylove, 'Using big data to highlight the creative industries' gender imbalance', *Creative Review*, 2019, ar gael yn: https://www.creativereview.co.uk/using-big-data-to-highlight-the-creative-industries-gender-imbalance/ [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021]

cynrychiolaeth rhywedd yn cynyddu. Yn y DU, dim ond 26% o'r gweithlu yn y sector digidol sy'n fenywod a dim ond 37% o'r gweithlu teledu a ffilm sy'n fenywod.[7]

Mae Clwstwr wedi cynyddu cyfran yr ymgeiswyr benywaidd yn y rhaglen yn barhaus yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Trwy fynd ati i gysylltu â sefydliadau fel Chwarae Teg i'n helpu i godi ymwybyddiaeth am y rhaglen, ar draws y pedair galwad am gyllid ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd o 22% o arweinwyr prosiect benywaidd i ddechrau i 66% o arweinwyr benywaidd yn y garfan ddiweddaraf.




**Ffigur 2: Canran yr arweinwyr benywaidd trwy gydol galwadau am gyllid Clwstwr.[8]**


[7] Sophia Taglialavore, 'Women in creative and digital industries', Salad Creative, blwyddyn yn anhysbys, ar gael yn: https://saladcreative.com/blog/women-in-creative-and-digital-industries/ [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].
[8] Mae data'r ffurflen fonitro wedi'u hategu â data o'r dadansoddiad o'r ffurflen gais er mwyn llenwi bwlch cynrychiolaeth Galwad Agored Mehefin 2019.

Yng ngham cyntaf Clwstwr o ran gwneud cais ar gyfer galwad agored Mehefin 2019, **dim ond 28% o'r ymgeiswyr arweiniol oedd yn fenywod**. Cynyddodd hyn i **32%** yng ngalwad agored Mehefin 2020. Gellir gweld tuedd debyg ar gyfer y galwadau sbarduno, sydd wedi'u hanelu at weithwyr llawrydd a micro-fusnesau. Ac eithrio'r alwad gyntaf, mae Clwstwr wedi llwyddo i gynnal neu gynyddu nifer yr arweinwyr benywaidd o'r cais i'r cam cyllido.

O ystyried arweinyddiaeth o fewn ymgeiswyr Clwstwr, mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn aros yn weddol gyfartal ar draws rolau arwain a chefnogi. Mae hyn yn syndod gan fod llai na 33% o'r rheolwyr yn y diwydiannau diwylliannol yn fenywod yn y DU, ac, o fewn y sector hysbysebu (sydd y tu allan i gylch gwaith Clwstwr), dim ond 25% o swyddi uwch sy'n cael eu cyflawni gan fenywod.[9] O ran cynrychiolaeth menywod o fewn tîm cyflenwi Clwstwr, mae hyn ychydig yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol ar **45.1%**.

## Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth trawsrywiol

Cynrychiolaeth cyfeiriadedd rhywiol[10] ymhlith cyfranogwyr Clwstwr yw **86.8% heterorywiol**, **5% deurywiol**, **3% dynion hoyw**, a **2% lesbiaid neu fenywod hoyw**. Dewisodd 3% o'r ymatebwyr i ddisgrifio eu cyfeiriadedd rhywiol. Cyfanswm y ganran ar gyfer cyfranogwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol yw **13.1%**. Mae **1%** o ymatebwyr ein harolwg yn drawsrywiol.




**Ffigur 3: Dosbarthiad cyfeiriadedd rhywiol ar gyfer cyfranogwyr rhaglen Clwstwr.**

Yn ôl canlyniadau'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol o 2018, mae pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol yn cynnwys 3.1% o boblogaeth Cymru.[11] O ran yr

---


[9] Sophia Taglialavore, 'Women in creative and digital industries', Salad Creative, blwyddyn yn anhysbys, ar gael yn: https://saladcreative.com/blog/women-in-creative-and-digital-industries/ [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].
[10] O ran y nodwedd hon, gwnaeth cyfran fawr o ymatebwyr benderfynu peidio â datgan unrhyw beth neu ddewis 'mae'n well gennyf beidio â dweud' (n=3) ac 'mae'n well gennyf ddisgrifio fy hun' (n=3). Mae'r rhain wedi'u tynnu o'r cyfrifiadau.
[11] StatsCymru, 'Hunaniaeth rywiol yn ôl flwyddyn', StatsCymru, 2021, ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Sexual-Orientation/sexualidentity-by-year-identitystatus [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

economi greadigol, mae Arolwg Gweithlu Creative Skillset[12] o 2014 yn amcangyfrif bod 7% o weithlu diwydiannau creadigol y DU yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.[13] Yn seiliedig ar ddata Creative Skillset, mae gan y sector ffilm un o'r cyfrannau uchaf o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol ar 10%, sy'n cymharu ag 14% yn y sector teledu cebl a lloeren, 11% yn y sector arddangosfeydd sinema, a 5% yn y sector gemau, gan ddangos y gwahaniaethau mawr ymhlith sectorau. **Mae hyn yn gosod cyfanswm Clwstwr o 13.1% yn uwch nag amcangyfrif y diwydiannau creadigol a'i is-sectorau, ac yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru o 3.1%.[14]**

Mae pobl drawsrywiol ac anneuaidd yn cyfrif am 1% o weithwyr ym maes animeiddio, effeithiau gweledol ac ôl-gynhyrchu, yn ôl arolwg Cynghrair Sgrin y DU o 2019.[15] Gydag 1% o'r ymatebwyr i'n harolwg yn drawsrywiol, **mae ein canfyddiadau yn debyg i amcangyfrifon o bob rhan o'r sectorau creadigol a diwylliannol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod prinder ymchwil ar hyn o bryd ar brofiadau gweithwyr trawsrywiol yn y diwydiannau creadigol.**

## Oedran

Mae mwyafrif cyfranogwyr rhaglen Clwstwr yn uwch na 35 oed **(78.6%)**. Ond eto, o'i chymharu â dosbarthiad oedran y gweithlu yn y DU, **mae'r rhaglen yn weddol ifanc**.




**Ffigur 4: Dosbarthiad oedran ar gyfer cyfranogwyr rhaglen Clwstwr.**

---


[12] Mae Arolwg Gweithlu Creative Skillset wedi casglu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol ers 2014. Nid yw cyfrifiad yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon na chyfrifiad Creative Skillset yn casglu'r wybodaeth hon (adroddiad Amrywiaeth Gweithlu CAMEo ar gyfer Sefydliad Ffilm Prydain, 2018).
[13] Creative Skillset, The Creative Media Workforce Survey 2014: Summary Report (2015), t.3, ar gael yn: https://www.screenskills.com/media/1559/creative_skillset_creative_media_workforce_survey_2014-1.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].
[14] Set Sgiliau Creadigol, Arolwg Gweithlu'r Cyfryngau Creadigol 2014: Summary Report (2015), t. 25, Ar gael yn: https://www.screenskills.com/media/1559/creative_skillset_creative_media_workforce_survey_2014-1.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].
[15] Anna Maria Ozimek, Equality, Diversity and Inclusion in the Screen Industries: Scoping Report (2020), t. 29, Ar gael yn: https://eprints.whiterose.ac.uk/170698/1/EDI_report.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Yn ôl Asesiad Blynyddol Creative Skillset o sector sgrin y DU o fis Awst 2019, mae gan sectorau diwydiant sgrin gyfran uwch o weithwyr o dan 40 oed (57%) o'u cymharu ag economi'r DU (46%);[16] mae ganddyn nhw hefyd gyfran is o weithwyr 50+ oed (20%) o'u cymharu ag economi'r DU (31%). Gellir cefnogi hyn gan ein data rhaglen, gyda 58% o dan 45 oed a dim ond tua 10% yn 55+ oed. **Er gwaethaf defnyddio gwahanol gategorïau oedran yn ein casgliad data, gallwn weld o hyd fod cyfranogwyr ein rhaglen yn tueddu i fod yn iau o'u cymharu â gweithlu a sector sgrin y DU.**

## Ethnigrwydd

Ar y pwynt hwn, cynrychiolaeth grwpiau hiliol ac ethnig ymhlith cyfranogwyr Clwstwr yw **86.2% o bobl Wyn Prydeinig, 3.6% o bobl Ddu a Du Prydeinig, 2.7% o bobl Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig a 0.9% o Arabiaid ac Arabiaid Prydeinig. Cyfanswm y ganran ar gyfer pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yw 13.8%.**

Rydym wedi penderfynu defnyddio'r term 'Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig' heb ei dalfyrru yn yr adroddiad hwn, gan mai hwn yw'r term a ddefnyddir yn fwyaf diweddar gan gyrff swyddogol fel Ystadegau Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y sgyrsiau diwylliannol parhaus sy'n ymwneud â defnyddioldeb a derbynioldeb termau ymbarél ar gyfer grwpiau ethnig amrywiol.




**Ffigur 5: Dosbarthiad ethnigrwydd cyfranogwyr rhaglen Clwstwr.**

[16] ScreenSkills, *Annual ScreenSkills Assessment, August 2019* (2019), t. 24, Ar gael yn: https://www.screenskills.com/media/2853/2019-08-16-annual-screenskills-assessment.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol o 2020, roedd 94.8% o bobl sy'n byw yng Nghymru o gefndir ethnig Gwyn, tra oedd 5.2% o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn 8% o boblogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. **Felly, mae ein canfyddiadau yn cymharu'n ffafriol â ffigurau poblogaeth genedlaethol a rhanbarthol yn hyn o beth.**[17]


Canfu cyfrifiad gweithle Creative Skillset fod 0.7% o weithlu sector creadigol Cymru o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn 2012.[18] Tra canfu adroddiad yn 2015 gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fod gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ffurfio 11% o ddiwydiannau creadigol y DU. Yn yr un modd, nododd Asesiad Blynyddol ScreenSkills o sector sgrin y DU o 2019 fod gan 90% o weithwyr y sector gefndir ethnig Gwyn.[19]

**O'i gymharu â'r data hwn, mae Clwstwr wedi cyflawni cynrychiolaeth uwch o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig nag ar draws y diwydiant sgrin a diwydiannau creadigol eraill, yn ogystal â phoblogaeth y DU a'r rhanbarth.**

## Cymraeg

Mae mwyafrif cyfranogwyr y rhaglen Clwstwr yn nodi **Saesneg fel eu hiaith gyntaf (87.4%), tra bo 8.1% yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ac roedd gan 4.5% iaith gyntaf wahanol**, gan gynnwys Arabeg, Sbaeneg ac ieithoedd eraill. Mae hanner cyfranogwyr y rhaglen yn siarad rhywfaint o Gymraeg, gydag **17.9% yn rhugl.**

[17] StatsWales, 'Ethnigrwydd yn ôl Ardal a Grŵp Ethnig', StatsWales, 2021, Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-area-ethnicgroup [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].
[18] Creative Skillset, 2012 Employment Census of the Creative Media Industries (2013), t. 19, Ar gael yn: https://www.screenskills.com/media/1552/2012_employment_census_of_the_creative_media_industries.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].
[19] ScreenSkills, Annual ScreenSkills Assessment, August 2019 (2019) t 24. Ar gael yn: https://www.screenskills.com/media/2853/2019-08-16-annual-screenskills-assessment.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].





**Ffigur 6: Mae'r siart cylch cyntaf yn cynrychioli cyfran yr ieithoedd cyntaf a siaredir ac mae'r ail siart cylch yn cynrychioli gallu cyfranogwyr y rhaglen i siarad Cymraeg.**

Yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2020, mae 28.8% o bobl tair oed a hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg.[20] Ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, nododd 21.1% eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. **Yn seiliedig ar y data hwn, ar 17.9% mae tangynrychiolaeth fach o siaradwyr Cymraeg rhugl yn rhaglen Clwstwr ac mae'n amlwg bod hwn yn faes i'w ddatblygu yn y rhaglen.**

## Anabledd

Yn seiliedig ar y data, gwelsom **nad yw 92.5% o'r cyfranogwyr yn anabl** a bod **7.5% yn anabl**.




**Ffigur 7: Dosbarthiad anabledd hunan-ddynodedig ymhlith cyfranogwyr rhaglen Clwstwr. Sylwer: rydym yn defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein harolwg cyfredol.**

---

[20] Llywodraeth Cymru, Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Hydref 2019 i Fedi 2020', *Llywodraeth Cymru*, 2021, Ar gael yn: https://gov.wales/welsh-language-data-annual-population-survey-october-2019- september-2020 [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol ar gyfer 2020 ar gyfer Cymru yn nodi bod 21.8% o bobl o oedran gweithio (16 – 64 oed) yng Nghymru gyfan yn anabl.[21] Adlewyrchir hyn yn yr un modd yn y ffigurau ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, fel yr adroddwyd yn yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol ar gyfer 2013, sy'n nodi bod 23.49% o bobl y rhanbarth hwn yn anabl.


Nid yw ffigurau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru ar gael ar hyn o bryd, ond o fewn diwydiannau creadigol y DU, mae Arolwg Cyflogaeth yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 2019 yn nodi bod 12.3% o bobl a gyflogir yn niwydiannau creadigol y DU yn cael eu hystyried yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, gydag 16.4% o weithwyr yn y sector diwylliannol yn anabl.[22] Yn ôl Asesiad Blynyddol ScreenSkills o sector sgrin y DU o fis Mai 2019, mae pobl anabl yn cyfrif am 10% o sectorau'r diwydiant sgrin.[23]

**O ystyried y data sydd gennym ar gael ar gyfer y diwydiannau sgrin a chreadigol yn y DU, mae'n amlwg bod hwn yn faes i'w ddatblygu ar gyfer Clwstwr. Credwn y bydd llawer o'r mesurau yr ydym wedi bod yn eu rhoi ar waith ers ein galwad gyntaf am gyllid, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau fel Disability Arts Cymru, adolygu ein holl brosesau, a chynnal digwyddiadau a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, yn ein helpu i groesawu mwy o bobl anabl i gymryd rhan yn ein rhaglen ymchwil a datblygu a byddwn yn parhau i adolygu ein heffaith yn y maes hwn.**

## Crefydd

Canfuom fod **75.8% o gyfranogwyr Clwstwr wedi nodi nad oes ganddynt grefydd**, **15.2% yn Gristnogion**, **4.04% yn Fwslimiaid, ac 1.01% yn Fwdhyddion**. Cynrychiolir crefyddau eraill, ond i raddau llai.

[21] StatsWales, 'Disabled status by region', *StatsWales*, 2020, Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/disabledstatus-by-region [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].
[22] Yr Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 'DCMS Sectors Economic Estimates: Employment in DCMS Sectors', *Gov.UK*, 2020, Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/dcms-sectors-economic-estimates-2019-employment [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].
[23] ScreenSkills, *Annual ScreenSkills Assessment: Crynodeb Gweithredol* (2019), t. 6, Ar gael yn: https://www.screenskills.com/media/2710/2019-05-20-executive-summary-annual-screenskills-assessment.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].




**Ffigur 8: Dosbarthiad crefydd ymhlith cyfranogwyr rhaglen Clwstwr.**

Yn ôl Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2020, roedd 47.9% yn Gristnogion, 47.3% heb grefydd ac 1.8% yn Fwslimiaid yng Nghymru. Nid oes digon o ymchwil i grefydd yn y sector sgrin, ac yn ôl adroddiad tystiolaeth amrywiaeth Prifysgol Caerlŷr ar gyfer Sefydliad Ffilm Prydain yn 2018, ni chafwyd unrhyw ymchwil feintiol yn y sylfaen dystiolaeth 'o gwmpas a pherthnasedd digonol a ddadansoddodd yn benodol' sut y gallai crefydd 'effeithio ar gyfranogiad a datblygiad y gweithlu'.[24] Mae Ofcom wedi bod yn casglu data ar gred grefyddol yn yr is-sector teledu ledled y DU. Maent wedi canfod nad yw'r data hwn yn cael ei gasglu'n eang ar draws yr holl gyflogwyr, ac nad yw rhai gweithwyr yn teimlo'n gyffyrddus yn datgelu eu credoau crefyddol am amryw o resymau. Mae hyn yn cyfrannu at gyfradd adrodd am ddata crefyddol gan Ofcom sy'n 'sylweddol is' (sef 22%) na'r gyfradd adrodd o 67% a geir ar gyfer gweithlu cyffredinol y DU.[25]

Rydym yn edrych ymlaen at fwy o ymchwil i amrywiaeth grefyddol diwydiannau diwylliannol y DU ac effaith gwahaniaethu ar sail crefydd yn sector y cyfryngau.

[24] CAMEo, Workforce Diversity in the UK Screen Sector: Evidence Review (2018), t. 39, Ar gael yn: https://www.bfi.org.uk/industry-data-insights/reports/workforce-diversity-uk-screen-sector-evidence-review [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

[25] Anna Maria Ozimek, Equality, Diversity and Inclusion in the Screen Industries: Scoping Report (2020) t. 37, Ar gael yn: https://screen-network.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/Equality-Diversity-and-Inclusion-in-the-Screen-Industries.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

# Heriau Clwstwr a'n hymyriadau

Ers dechrau Clwstwr, rydym wedi cydnabod nad oedd y sector sgrin a newyddion ac, yn fwy penodol, y rhai sy'n ymgymryd ag ymchwil a datblygu, yn adlewyrchu ein cymdeithas yn gyffredinol. Mae gwerthfawrogiad cynyddol o amgylch y rhwystrau real a chanfyddedig y mae pobl yn eu hwynebu wrth gymryd rhan yn y sectorau hyn, ac mae Ailysgrifennu'r Sgript yn adroddiad defnyddiol ar amrywiaeth yn y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru yn 2016, a gynhaliwyd gan Diverse Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.[26] Yn ein gwaith ein hunain, gwnaethom nodi rhai o'r rhwystrau mwyaf y gallai pobl eu profi wrth gymryd rhan yn ein rhaglen ymchwil a datblygu, gan gymryd mesurau i fynd i'r afael â hwy.

1. **Roedd digwyddiadau arloesi ymchwil a datblygu a galwadau am gyllid yn tueddu i ddenu cyfranogwyr sy'n ddynion abl, o gefndir Gwyn Prydeinig, yn bennaf.**

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gwnaethom ymgymryd â strategaeth ymgysylltu wedi'i thargedu drwy gysylltu â sefydliadau fel Chwarae Teg, Menywod Digidol Cymru, The Privilege Café, Cyngor Hil Cymru a Disability Arts Cymru, a gwnaethom hefyd ehangu ein hymgysylltiad ar draws sector creadigol ehangach Cymru mewn digwyddiadau fel Beth Nesaf?

O ganlyniad i'r camau a gymerwyd gennym ar ôl ein galwad gyntaf am gyllid yn 2019, rydym wedi cyflawni llawer mwy o gydraddoldeb o ran cynrychiolaeth rhwng y rhywiau ers ein Lab Syniadau cyntaf yn 2020, ac yn y garfan o 2020 a ddeilliodd o hynny ac a ariannwyd gan gyllid sbarduno. Cyflawnwyd cynnydd o 28% mewn ymgeiswyr benywaidd yn ein galwad agored gyntaf i 44% yn ail alwad y Lab Syniadau, ac mae'r cynnydd hwn wedi parhau i'n galwadau dilynol. Gwelsom hefyd gynnydd sylweddol yn yr

[26] Diverse Cymru, *Rewriting the Script: A report into Diversity in Film and TV by Diverse Cymru funded by the Welsh Government* (2016), Ar gael yn: https://www.diversecymru.org.uk/wp-content/uploads/Rewriting-the-script-Full-Report .pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

unigolion a wnaeth gais i'n cronfeydd, gyda holl fynychwyr y Lab Syniadau yn unig fasnachwyr.

Mae'n werth nodi yma hefyd, er bod cydraddoldeb rhywiol ar draws y timau cyflenwi a rheoli yn Clwstwr, rydym yn gwybod bod cyfle i feithrin mwy o amrywiaeth ar draws y timau ehangach. Er mwyn nodi lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol, rydym wrthi'n arolygu amrywiaeth ein timau cyflenwi a rheoli yn ogystal â'n cyd-ymchwilwyr, y bwrdd llywio a'n cynghorwyr rhyngwladol. Bydd hyn yn llywio ein ffordd o feddwl wrth i ni ehangu ein tîm a'r arbenigeddau rydym yn gweithio gyda nhw.

2. **Gwnaethom nodi bod rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig o ran amser a gallu ariannol pobl i fuddsoddi mewn gwneud cais am gyllid, ynghyd â rhwystrau canfyddiadol o amgylch natur ymchwil a datblygu a'r sgiliau sydd eu hangen i'w wneud.**

Un o'n gweithredoedd oedd datblygu pecyn cyllid sbarduno newydd trwy gynnal Lab Syniadau deuddydd gyda'n partneriaid PDR, ymgynghoriaeth ddylunio o'r radd flaenaf a chyfleuster ymchwil gymhwysol. Anelwyd hyn yn unig at weithwyr llawrydd a micro-fusnesau a gwnaethom gynnig cyflog a chymorth i ofalwyr i'r rhai a oedd yn bresennol.

Gwnaethom hefyd adolygu ein hiaith, ein prosesau cyllido a'r ffordd y gwnaethom gyflwyno ein rhaglen. Roedd hyn yn golygu, er enghraifft, pwysleisio bod ymchwil a datblygu yn y diwydiannau creadigol yn broses greadigol, gydag adrodd y stori yr un mor bwysig â'r dechnoleg. Fe wnaethom gynnig cyfarfodydd un i un mewn lleoliadau cymunedol ar draws deg awdurdod lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gwnaethom hefyd gymryd camau syml, fel osgoi gwyliau crefyddol neu genedlaethol sylweddol.

Gwnaethom sylweddoli y byddai enghreifftiau da o sut olwg oedd ar ymchwil a datblygu diwydiant creadigol yn allweddol i ledaenu sgiliau ymchwil a datblygu yn ehangach ac felly, o gyfnod cynnar, rydym wedi annog prosiectau a ariennir i ysgrifennu am eu profiadau mewn blogiau safbwyntiau i helpu i egluro eu proses ymchwil a datblygu unigryw eu hunain. Cefnogir pob prosiect gorffenedig i greu astudiaeth achos ysgrifenedig, neu fideo, ac rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau ‘Cipolwg’ sef digwyddiadau 'mewnwelediad' lle mae prosiectau'n rhannu’r hyn a ddysgon nhw ar eu taith ymchwil a datblygu.

Mae llwyddiant y mentrau hyn wedi llywio ein hymagwedd ar draws y rhaglen gyfan ac rydym hefyd wedi ymgorffori cymorth ymchwil a datblygu

parhaus gyda PDR, cyngor ar adnabod, amddiffyn a manteisio ar eiddo deallusol gydag Acuity Law, cyngor datblygu busnes gydag Upstarter a Landsker, a chyfarfodydd un i un ar gyllidebu gyda'n tîm Cyllid, ac rydym yn annog cyswllt rhwng ein prosiectau i greu rhwydwaith cydweithredol a chefnogol.

3. **Mae Clwstwr wedi'i leoli mewn cymuned ddwyieithog, gydag 17.8% o siaradwyr Cymraeg rhugl a 32.1% o siaradwyr Cymraeg lefel sylfaenol yn ein carfannau a ariennir.**

Caerdydd yw canolfan gynhyrchu ddwyieithog fwyaf arwyddocaol y DU a gwyddom fod cyfleoedd sylweddol, gartref ac yn rhyngwladol, i harneisio'r arbenigedd hwn yn ein sectorau sgrin a newyddion.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau Cymraeg Llywodraeth Cymru, mae Clwstwr yn frand cwbl ddwyieithog gyda'r holl gyfathrebiadau swyddogol yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys ein gwefan, e-byst, cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau ymchwil, yn ogystal â chynnig cyfieithu ar y pryd yn ein digwyddiadau. Trwy ariannu sefydliadau fel Golwg ac Y Pod, rydym yn anelu at adeiladu ymhellach ar arloesedd cyfryngau trwy gyfrwng y Gymraeg.

4. **Mae Clwstwr yn cydnabod yr angen i oresgyn 'camgymharu rhyngweithio dynol'.[27]**

Rydym yn falch ein bod yn gweld cynnydd mewn prosiectau sy'n archwilio ffyrdd o greu sector sgrin a newyddion mwy hygyrch, a gallwch weld mwy amdanynt ar ein tudalen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yma. Mae'r tîm cyfan yn Clwstwr yn parhau â'n gwaith i wneud ein holl brosesau a strwythurau yn fwy hygyrch. Ein taith ymchwil a datblygu ni ein hunain oedd hon, gan ddefnyddio dull dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i ymchwilio i'n dulliau'n barhaus, a'u creu, profi a newid, i adlewyrchu'r adborth a gawsom.

Mae Arts Disability Cymru wedi bod mor garedig i weithio gyda ni i adolygu ein prosesau ymgeisio ac uwchsgilio ein tîm a'n carfan, ac rydym yn adolygu

[27] Term a ddefnyddir gan Chris Hardess, hyrwyddwr hygyrchedd ym Microsoft. Gweler: https://www.microsoft.com/en-us/accessibility[28] Clwstwr, 'Equality, Diversity and Inclusion', *Clwstwr*, 2021, Ar gael yn: https://clwstwr.org.uk/about/equality-diversity-and- inclusion [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

sut a ble rydyn ni'n cyfathrebu ein negeseuon yn barhaus. Gallwch weld y camau rydyn ni wedi'u cymryd i wneud ein cyfathrebiadau'n fwy hygyrch ar ein gwefan.[28]

Gan gydnabod nad oes gan lawer o'n prosiectau a ariennir a'n cydweithwyr yr amser na'r adnoddau i drefnu sesiynau hyfforddi a datblygu drostynt eu hunain, rydym hefyd yn darparu diwrnodau hyfforddi ar gyfer ein tîm a phrosiectau a ariennir, fel y rhai gyda Disability Arts Cymru ynghylch Hyfforddiant Gweithredu Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Goresgyn Rhagfarn Ddiarwybod gyda Phrifysgol Caerdydd, Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn y Gwaith gydag Elemental Health Ltd, ac Ymwybyddiaeth Awtistiaeth gydag Autistic UK. Mae hon yn broses barhaus ac rydym yn croesawu adborth ac awgrymiadau ar sut y gallwn wneud ein holl waith yn hygyrch.

Rydym hefyd yn gwybod na fydd cynhyrchion, gwasanaethau a phrofiadau a ddyluniwyd gan ac a brofwyd ar ddynion gwyn cyffredin sy'n cisryweddol ac yn abl yn gwasanaethu natur amrywiol cynulleidfaoedd a phobl greadigol, ac rydym yn gweithio ar ffyrdd i helpu ein sefydliadau a ariennir i greu prosesau ymchwil a datblygu mwy cynhwysol iddynt eu hunain.

[28] Clwstwr, 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant', Clwstwr, 2021, Ar gael yn: https://clwstwr.org.uk/about/equality-diversity-and-inclusion [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

# SYLWADAU I GLOI

Mae Clwstwr wedi ymrwymo i ddatblygu cymuned ymchwil a datblygu yn y sector sgrin a newyddion sy'n gynhwysol ac yn gynrychioliadol o'n cymunedau.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio data meintiol o ystod o ffynonellau i roi syniad o'n sefyllfa ni mewn perthynas â'n cymunedau a'r sector sgrin yn ei gyfanrwydd. Nid yw hyn heb ei heriau o ran cysondeb, ac mae'n amlwg bod mwy o waith i'w wneud ar draws rhaglen Clwstwr a'r sector i ddod â darlun data cydlynol a chyfoes at ei gilydd o amrywiaeth y sectorau sgrin, newyddion a chreadigol yng Nghymru.

Er bod angen ymchwil feintiol ac ansoddol gadarn bellach i werthuso ein cynnydd, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y strategaethau a roddwyd ar waith ac, o ran ein data ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod ein bod wedi cael effaith gadarnhaol mewn rhai meysydd – yn enwedig ym meysydd rhywedd ac anabledd. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd o ran ymgysylltu ac ariannu grŵp mwy amrywiol o bobl, ac wrth uwchsgilio pobl i'r sector ymchwil a datblygu. Er mwyn i'r gweithgaredd hwn gael effaith barhaus ac ystyrlon, ni allwn weithio ar ein pennau ein hunain a rhaid gwneud y gwaith hwn ar y cyd â chyrff cynrychioli, y sector cyhoeddus, a'r gymuned yn gyffredinol.

Mae'r myfyrdodau yn yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol fel arwydd o'r effaith yr ydym wedi'i chael dros ein galwadau blaenorol am gyllid, ond dim ond rhan o'r stori y gall data meintiol ei hadrodd, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â phobl i ddeall eu profiad o ymchwil a datblygu a'r hyn y gallwn ei wneud i helpu i oresgyn rhwystrau ac ysbrydoli ymchwil a datblygu unigryw ac arloesol.

# Llyfryddiaeth


Cabinet Office, 'Socio-economic background (SEB)', *Gov.UK*, 2019, Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/socio-economic-background/socio-economic-background-seb [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Clwstwr, 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant', *Clwstwr*, 2021, Ar gael yn: https://clwstwr.org.uk/about/equality-diversity-and-inclusion [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Creative Skillset, *2012 Employment Census of the Creative Media Industries* (2013), Ar gael yn: https://www.screenskills.com/media/1552/2012_employment_census_of_th e_creative_media_industries.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Creative Skillset, The Creative Media Workforce Survey 2014: Summary Report (2015), Ar gael yn: https://www.screenskills.com/media/1559/creative_skillset_creative_media _workforce_survey_2014-1.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021]

Yr Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 'DCMS Sectors Economic Estimates: Employment in DCMS Sectors', *Gov.UK*, 2020, Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/dcms-sectors-economic-estimates-2019-employment [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Diverse Cymru, *Rewriting the Script: A report into Diversity in Film and TV by Diverse Cymru funded by the Welsh Government* (2016), Ar gael yn: https://www.diversecymru.org.uk/wp-content/uploads/Rewriting-the-script-Full-Report.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Fulleylove, Rebecca, 'Using big data to highlight the creative industries' gender imbalance', *Creative Review*, 2019, Ar gael yn: https://www.creativereview.co.uk/using-big-data-to-highlight-the-creative- industries-gender-imbalance/ [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Ozimek, Anna Maria, *Equality, Diversity and Inclusion in the Screen Industries: Scoping Report* (2020), t. 29, Ar gael yn:

https://eprints.whiterose.ac.uk/170698/1/EDI_report.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

ScreenSkills, *Annual ScreenSkills Assessment, August 2019* (2019), Ar gael yn: https://www.screenskills.com/media/2853/2019-08-16-annual-screenskills- assessment.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

ScreenSkills, *Annual ScreenSkills Assessment: Executive Summary* (2019), Ar gael yn: https://www.screenskills.com/media/2710/2019-05-20-executive-summary-annual-screenskills-assessment.pdf [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

ScreenSkills, 'Monitoring diversity and inclusion', *ScreenSkills*, 2019, Ar gael yn: https://www.screenskills.com/about-us/diversity-and-inclusivity/guide-to- diversity-and-inclusivity-monitoring/ [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

StatsWales, 'Disabled status by region', *StatsWales*, 2020, Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/disabledstatus-by-region [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

StatsWales, 'Ethnicity by Area and Ethnic Group', *StatsWales*, 2021, Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-area-ethnicgroup [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

StatsWales, 'Sexual identity by year', *StatsWales*, 2021, Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Sexual-Orientation/sexualidentity-by-year-identitystatus [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Taglialavore, Sophia, 'Women in creative industries', *Salad Creative*, blwyddyn anhysbys, Ar gael yn: https://saladcreative.com/blog/women-in- creative-and-digital-industries/ [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].

Llywodraeth Cymru, Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Hydref 2019 i Fedi 2020', *Llywodraeth Cymru*, 2021, Ar gael yn: https://gov.wales/welsh-language-data-annual-population-survey-october-2019- september-2020 [Cyrchwyd: 27 Gorffennaf 2021].



## Tîm ymchwil

Dr Marlen Komorowski

Dadansoddwr Effaith yn Clwstwr ac Uwch-ymchwilydd, imec-SMIT-VUB (Vrije Universiteit Brussel)
komorowskim@cardiff.ac.uk

Sally Griffith

Arweinydd Cynhwysiant a Chynhyrchydd yn Clwstwr
Griffiths6@cardiff.ac.uk

Laolu Alatise

Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Clwstwr
AlatiseAO@cardiff.ac.uk

## Cydnabyddiaeth

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn gyda chymorth ariannol gan AHRC a Llywodraeth Cymru.  Yr awduron sy'n gwbl gyfrifol am ei gynnwys.

© 2020 Clwstwr, rhaglen ym Mhrifysgol Caerdydd. Cedwir pob hawl.